Rhif: **WG14945**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012

Dyddiad cyhoeddi: **28 Chwefror 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **22 Mai 2012**

# Ymgynghoriad ar Reoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012

**Trosolwg**

Mae'r rheoliadau drafft hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chorff llywodraethu ysgol yn trosi o fod yn gorff a gyfansoddwyd fel bwrdd gweithredol interim yn unol ag Atodlen 1A i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i fod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol ag Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 2002.

I sicrhau parhad a throsiad didrafferth swyddogaethau cynigir ei gwneud hi'n bosibl i benodi corff llywodraethu cysgodol, a fydd yn cydweithio â'r Bwrdd Gweithredol Interim am o leiaf chwe mis i ddechrau ac a fydd yna'n gweithredu ar ei ben ei hun unwaith y bydd y Bwrdd Gweithredol Interim wedi'i ddirwyn i ben.

O dan y cynigion yr ymgynghorir yn eu cylch, mae'n rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau i sefydlu corff llywodraethu cysgodol o leiaf chwe mis cyn i'r Bwrdd Gweithredol Interim beidio â gweithredu. Cyfansoddir y corff llywodraethu cysgodol yn yr un modd â chorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn llawn o dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, ac felly bydd ganddo'r un categorïau o lywodraethwyr a'r un nifer o lywodraethwyr ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion.

**Sut i ymateb**

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu hanfon drwy'r post at:
Julie Webster
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu drwy e-bost at: sef@wales.gsi.gov.uk gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a geir ar ddiwedd y ddogfen.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig)
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (Saesneg yn unig)
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/contents

© Hawlfraint y Goron 2012

**Manylion cysylltu**

Os yw eich ymholiad yn gysylltiedig â chynnwys yr ymgynghoriad o ran polisi gallwch gysylltu â:

Jacqui Moyle
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: sef@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 6363

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## 1 Y cefndir

### Byrddau Gweithredol Interim

1.1 Mae Adrannau 57 a 58 o Ddeddf Addysg 2002 yn diwygio Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er mwyn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru sefydlu Bwrdd Gweithredol Interim a fydd yn cymryd lle corff llywodraethu ysgol.

1.2 Corff bach yw Bwrdd Gweithredol Interim a benodir gan awdurdod lleol am gyfnod byr er mwyn gwyrdroi hynt ysgol y bernir bod angen mynd ati ar frys i'w gwella. Mae Bwrdd Gweithredol Interim yn disodli corff llywodraethu ysgol sydd un ai'n destun mesurau arbennig, yn ysgol y mae Estyn wedi barnu bod angen iddi wella'n sylweddol neu'n ysgol nad yw wedi cydymffurfio â hysbysiad rhybuddio oddi wrth ei hawdurdod lleol.

1.3 Prif swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol Interim yw sicrhau sail gadarn ar gyfer cyflawni gwelliannau yn yr ysgol yn y dyfodol a hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol.

1.4 Unwaith y penderfynir bod gofyn i'r awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Gweithredol Interim mewn ysgol, mae'n cyhoeddi hysbysiad sy'n nodi y bydd y corff llywodraethu yn cynnwys aelodau gweithredol interim o ddyddiad penodedig. Gallai'r hysbysiad hwn hefyd nodi ar ba ddyddiad y bydd y Bwrdd Gweithredol Interim yn dod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, neu gallai hyn gael ei bennu mewn hysbysiad diweddarach.

1.5 Mae Atodlen 1A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn pennu y gall trefniadau ar gyfer trosi o Fwrdd Gweithredol Interim yn ôl i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal gael eu rhagnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

1.6 Mae'r rheoliadau drafft hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chorff llywodraethu ysgol yn trosi o fod yn gorff a gyfansoddwyd fel bwrdd gweithredol interim yn unol ag Atodlen 1A i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i fod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol ag Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 2002.

1.7 Mae'r rheoliadau hyn yn pennu y caiff yr awdurdod lleol wneud trefniadau i sefydlu corff llywodraethu cysgodol o leiaf chwe mis cyn i'r Bwrdd Gweithredol Interim beidio â gweithredu. Cyfansoddir y Corff Llywodraethu Cysgodol yn yr un modd â chorff llywodraethu'r ysgol.

1.8 Gallai'r Bwrdd Gweithredol Interim ddirprwyo swyddogaethau i'r corff llywodraethu cysgodol yn ystod y cyfnod hwn.

1.9 Pan fydd y Bwrdd Gweithredol Interim yn camu i lawr caiff y Corff Llywodraethu Cysgodol ei drin fel petai'n gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal.